**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-938
Ein cyf/Our ref KW/00012/20

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

14 Ionawr 2020

Annwyl Janet Finch-Saunders AC,

Diolch am eich llythyr ynghylch deiseb P-05-938, sy'n gofyn i brifysgolion Cymru dderbyn Bagloriaeth Cymru fel Safon uwch ar gyfer pob cwrs.

Polisi Llywodraeth Cymru yw ein bod am i bob dysgwr elwa ar Fagloriaeth Cymru, a chyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau, sy'n un o'r cymwysterau sy'n rhan o Fagloriaeth Cymru Uwch. Drwy ychwanegu sgiliau cyflogadwyedd a datblygiad personol hanfodol at astudiaethau academaidd neu gymwysterau galwedigaethol, mae Bagloriaeth Cymru yn helpu i baratoi pobl ifanc ar gyfer addysg uwch neu addysg bellach, cyflogaeth a bywyd. Mae'n rhoi cyfle i'n dysgwyr feithrin y sgiliau ehangach a'r wybodaeth sy'n cyd-fynd â phedwar diben y cwricwlwm newydd, ac adeiladu arnynt.

Yn 2018 cyhoeddodd Cymwysterau Cymru adolygiad o'r Dystysgrif Her Sgiliau. Yn ychwanegol, yn 2019 cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg eu hymchwiliad i Fagloriaeth Cymru. Mae argymhellion y ddau adroddiad wrthi'n cael eu gweithredu.

Yn benodol, un  o argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oedd:

**Argymhelliad 3.** Bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith i ddarparu rhestr gynhwysfawr o'r prifysgolion hynny sy'n derbyn Bagloriaeth Cymru yn eu cynigion. Dylai'r rhestr hon gynnwys manylion am sut yn union y mae pob prifysgol yn trin Bagloriaeth Cymru, a ph'un a yw'n:

- cael ei derbyn fel cymhwyster Safon Uwch cyfatebol;

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- cael ei defnyddio i alluogi cynnig amgen drwy ostwng y gofynion gradd mewn pynciau eraill;
- cael ei hystyried ddim ond fel rhan o ddatganiad personol ymgeisydd


Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â chonsortia, CBAC, Cymwysterau Cymru a Colegau Cymru i wella'r ffordd rydym yn sôn am Fagloriaeth Cymru wrth randdeiliaid a phrifysgolion. Yn ogystal, mae gan Gymwysterau Cymru aelod o staff wedi'i neilltuo i godi ymwybyddiaeth o gymwysterau Cymru ymhlith prifysgolion. Maent wedi paratoi dadansoddiad sy'n dangos bod pob math o brifysgolion yn cynnwys Bagloriaeth Cymru yn eu cynigion.

Mae llawer o brifysgolion bellach yn cynnwys y Dystysgrif Her Uwch mewn cynigion ac mae'r prosiect unigol yn aml yn darparu tystiolaeth dda a pherthnasol wrth gefnogi datganiadau a chyfweliadau, hyd yn oed os nad yw'n cael ei dderbyn fel rhan o'r cynnig gradd. Cydnabyddir bod modd cymharu'r Dystysgrif o ran safon yr her i Safon Uwch a rhoddir iddi'r un nifer o bwyntiau UCAS. Mae prifysgolion Cymru, a nifer o brifysgolion Grŵp Russell, yn glir eu bod yn gwerthfawrogi'r Dystysgrif ac yn cymryd ymagwedd gynyddol hyblyg at ei chydnabod yn eu cynigion. O ran yr enghraifft benodol a ddarparwyd yn y ddeiseb, mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn derbyn Bagloriaeth Cymru ar gyfer mynediad i'r radd Therapi Lleferydd ac Iaith - mae'r wefan yn nodi:

*Welsh Baccalaureate – Advanced Skills Challenge Certificate, minimum grade B accepted along with three A levels in three clearly separate subject areas, with grades BBB. It is desirable, but not essential, that one or more of these is a science (i.e. biology, chemistry, physics or maths) and that they are academic subjects.*

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda CBAC, Cymwysterau Cymru, UCAS a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod gwybodaeth am ba brifysgolion sy'n derbyn Bagloriaeth Cymru fel rhan o'u cynigion yn cael ei chasglu'n systematig a'i diweddaru'n barhaus a'i bod yn hygyrch i ddysgwyr, rhieni/gwarcheidwaid ac ysgolion.

Yn gywir,



**Kirsty Williams AC**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education